OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2004 Rhif 1754 (Cy.187) (C.70)

GWASANAETHAU CYMDEITHASOL, CYMRU
Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Gorchymyn Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001 (Cychwyn Rhif 7) (Cymru) 2004

Wedi'i wneud - - 7 Gorffennaf 2004

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 64(6) a 70(2) o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001(**1**), drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

Enwi, cymhwyso a dehongli

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001 (Cychwyn Rhif 7) (Cymru) 2004 ac mae'n gymwys mewn perthynas â Chymru.

(2) Yn y Gorchymyn hwn ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001.

Diwrnodau penodedig

2.—(1) I'r graddau y mae'n rhoi pwerau i wneud rheoliadau, y diwrnod wedi'r diwrnod y gwneir y Gorchymyn hwn yw'r diwrnod a benodir ar gyfer adran 58 i ddod i rym.

(2) 1 Tachwedd 2004 yw'r diwrnod a benodwyd i'r darpariaethau canlynol o'r Ddeddf ddod i rym—

(a) adran 48 ac Atodlen 4;

(b) adran 57 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym(**2**);

(c) adran 58 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym;

(ch) adran 67(1) a pharagraff 15(1) o Atodlen 5 i'r graddau y maent yn ymwneud â —

(i) paragraff 15(2); a

(ii) y rhan honno o baragraff 15(3) sy'n mewnosod y geiriau "making of direct payments to a person in respect of his securing provision of community care services or

(**1**) 2001 p.15. Rhoddwyd y pwerau i'r "relevant authority" y mae adran 66 o Ddeddf 2001 yn ei ddiffinio fel Cynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â Chymru, a'r Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â Lloegr.

(**2**) *Gweler* adran 70(2)(c) o Ddeddf 2001.

services to carers", a'r cyfeiriadau cysylltiedig at Ran 4 o'r Ddeddf, yn Atodlen 1 i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol 1970(**3**);

(d) adran 67(2) a Rhan 3 o Atodlen 6 i'r graddau y maent yn ymwneud a'r cofnodion yn Rhan 3 ynghylch—

(i) Deddf Gofal Cymunedol (Taliadau Uniongyrchol) 1996(**4**);

(ii) Deddf Gofalwyr a Phlant Anabl 2000(**5**).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**6**))

D. Elis-Thomas
Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

7 Gorffennaf 2004

(**3**) 1970 p.42.
(**4**) 1996 p.30; diwygiwyd adran 1 gan adran 5 o Ddeddf Gofalwyr a Phlant Anabl 2000 (p.16).
(**5**) 2000 p.16.
(**6**) 1998 p.38.